CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD CYNGOR LLAWN
Dydd Iau 14eg Ionawr, 2016 AM 7.30PM
YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFFAN
I DRAFOD CAIS CYNGOR SIR CEREDIGION (CSC) GERBRON LLYWODRAETH CYMRU PARTHED LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU

Gwahoddwyd aelodau i gymryd rhan mewn gweddi cyn y cyfarfod.
Bu i'r Cynghorydd Rhys Bebb Jones offrymu Gweddi.

1. CROESO CADEIRYDD
Croesawodd y Maer bawb i'r Cyfarfod.

PRESENNOL:
Y Maer y Cyng Christopher Thomas; Dirprwy-Faer David Smith; Cynghorwyr y Dref: Andrew Carter; Elsie Dafis; John Davies; Cynghorydd Tref a Sirol Hag Harris; Elin Jones; Rhys Jones; Ann Morgan; Robert Phillips; Kistiah Ramaya & Dorothy Williams.
Y Cynghorydd Sirol Ifor Williams.

Aelod o'r Cyhoedd: Mr Chris Studman;
Mrs Carol Thomas (Cyfieithydd ar y Pryd).

2. YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Adrian Kendon, y Cyng Selwyn Walters a'r Cyng Derek Wilson.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU
Datganodd y canlynol fuddiant wrth drafod y mater dan sylw:
3.1 Y Cynghorydd Elin Jones yn rhinwedd ei swydd fel Is-Gadeirydd-Llywodraethwyr Ysgol Bro Pedr Ysgol.
3.2 Y Cyng Robert Phillips gan ei fod yn trigo ac yn berchennog eiddo yn Stryd Newydd, Llambed.

4. GOHEBIAETH A DDERBYNIWYD GAN GYNGOR SIR CEREDIGION MR GARI JONES & MR PAUL ARNOLD AR YR 8/01/2016

A wnewch chi gyfeirio i Atodiad 1 & 2.

Ar ôl ystyriaeth ofalus, penderfynwyd ymateb i gynnig CSC gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol.

"Cefnogir y cais mewn egwyddor, mewn ymgais i wneud teithio'n haws ac yn fwy diogel. Noder:

1. Y mae Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn cytuno i gyflwyno Parth 20 milltir yr awr, ond nid yn ffafrio twmpathau cyflymder (Ar gyfer Teras Peterwell i gynnwys troad Hafan Deg); y mae'r Cyngor Tref o blaid gwaredu â darn o'r gornel ar Gyffordd Hafan Deg pan yn troi i'r chwith wrth agosáu o'r Stryd Fawr;

2. Nid yw'r Cyngor Tref yn gytun i gynnwys Stryd Newydd yn y Cynllun;

3. A allai'r Cyngor Sir gynnig opsiynau eraill parthed mesurau tawelu traffig yn yr ardal dan sylw? (Er enghraifft y Model a ddefnyddiwyd yng nghyffiniau Ysgol Penglais, Aberystwyth);

4. A allai'r Cyngor Tref gynnig opsiynau eraill i'w hystyried gan y Cyngor Sir yng ngoleuni gwybodaeth leol?

5. Rydych yn gofyn petai'r Cyngor Tref, "yn ystyried gwneud cyfraniad ariannol cyfatebol i'r cynllun hwn". Allech chi ddarparu eglurhad pellach am y gost? Dymuna'r Cyngor Tref sefydlu'r gost derfynol cyn cytuno i'r cynnig ac yn ddelfrydol, y swm penodol; &

6. Lleolir Gwasanaethau Brys yn y cyffiniau. Sut fyddai'r mesurau hyn yn effeithio arnynt? Nid yw'r Cynllun Drafft yn dangos Llinellau Croes Melyn (cross hatch) ar y fynedfa i'r Orsaf Ambiwlans neu'r Orsaf Dân.

7. Byddai'r Cyngor Tref yn gerthfawrogi derbyn copi o'r Cynllun Terfynol o'r Atodlen Gwaith."

Roedd y cyfarfod am 8.17pm.

========== (arwyddo/dyddiad)